

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhliwyd yn  
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 12 Chwefror 2018 am 6:45p.m.**

**PRESENNOL:** Y Cyngorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Stephen Beach, Jim Bryan,  
Robert Owen-Ellis, Ken Hawkins, Rosie Hughes, Heather Williams ac Ifan Wyn.

**63. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd John Wynne Hughes.

**64. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**65. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2018 yn gywir.

**66. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**67. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniadau cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:

02/2017/1130 – Wynnstay Stores Plc, Heol y Parc, Rhuthun – Tystysgrif datblygu cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol y safle fel adwerthu Dosbarth A1 – Caniatawyd

02/2017/1113 – Hafan Deg, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Dymchwel yr annedd sy'n bodoli ac adeiladu 2 annedd ac addasiadau i'r fynedfa i gerbydau – Caniatawyd

02/2017/1129 – Co Operative Retail Services Ltd – Arddangos arwyddion wedi'u hadnewyddu – Caniatawyd

02/2017/1030 – Hew House, Castell Rhuthun, Stryd y Castell – Adeiladu estyniad ac addasiadau i'r annedd – Caniatawyd

02/2017/0777 – 25 Stryd y Ffynnon, Rhuthun – Newid ac addasu garej ynghlwm i ffurfio estyniad i'r caffï a'r lle pobi sy'n bodoli eisoes (cais Adeilad Rhestredig) - Caniatawyd

**68. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD:** *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

**02/2017/1224 – Co-operative Retail Service Ltd, Ffordd yr Orsaf, Rhuthun**

Gosod peiriannau mecanyddol newydd i'r iard allanol ac ail-addurno fframiau a drysau blaen siop.

**02/2018/0002 & 0003 (cais Adeilad Rhestredig) – 9 a 9A Stryd y Castell, Rhuthun**

ddasiadau ac estyniad i annedd.

**02/2018/0011 – 5 Y Parc, Rhuthun**

Codi estyniad unllawr i'r annedd.

**02/2018/0020 – Tir wrth ymyl 5 Ffordd Rhufon, Rhuthun**

Lleihau coron 5 coeden castanwydd y meirch sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed.

**02/2018/0075 - Fferm y Castell, Ffordd Llanfair, Rhuthun**

Isrannu a newidiadau i'r annedd presennol i ffurfio 2 annedd a gwaith cysylltiedig.

**02/2018/0102 – Bryn Celyn, Ffordd Llanfair, Rhuthun**

Adeiladu estyniad i'r annedd.

**PENDERFYNWYD:** *bod gwrthwynebiad cryf i'r cais isod, oherwydd y lleoliad, graddfa, dyluniad a más yr adeilad. Mae maint y cynllun arfaethedig yn fwy na'r hyn a gymeradwywyd yn 2015, yn enwedig ar lefel y llawr cyntaf. Mae'r aelodau'n parhau o'r farn fod maint a más yr adeilad arfaethedig yn cynrychioli gorddatblygu'r safle, a fyddai'n cael effaith andwyol ar eiddo cyfagos mewn Ardal Gadwraeth.*

**02/2018/0065 – Tir yn (rhan o ardd) Tan y Gerddi, Stryd Mwrog, Rhuthun**

Codi annedd ar wahân, addasiadau i'r fynedfa gerbydau bresennol a'r gwaith cysylltiedig

(cynllun diwygiedig i'r hyn a gymeradwywyd yn flaenorol dan gais rhif 02/2015/0995).

#### **69. HYFFORDDIANT CYNLLUNIO AM DDIM**

Ystyriodd yr Aelodau wahoddiad i ddau aelod fynd i weithdy cynllunio am ddim gan Gymorth Cynllunio Cymru i'w gynnal yng Ngwesty a Sba Castell Rhuthun ar 22 Chwefror, 2.30pm – 5.45pm. Roedd nifer o aelodau'n methu mynd oherwydd ymrwymadau gwaith. Awgrymwyd holi'r Cynghorydd John Wynne Hughes a oedd yn dymuno mynd i'r gweithdy cynllunio. Roedd y Cynghorwyr Jim Bryan, Stephen Beach a Heather Williams yn barod i fynd hefyd.

**PENDERFYNWYD:** *gofyn i'r Cynghorydd John Wynne Hughes a oedd yn dymuno mynd i'r gweithdy, a threfnu lle i ddau aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.*

#### **70. RHUTHUN: TREF FARCHNAD Y DYFODOL – DIWEDDARU'R CYNLLUN**

Roedd aelodau'r Pwyllgor Amwynderau hefyd yn bresennol i glywed am y datblygiadau diweddaraf o ran diweddarau'r cynllun uchod. Amlinellodd y Cynghorydd Gavin Harris y gwaith a gyflawnwyd yn 2012 i lunio'r fersiwn gyntaf, a'r cynnig i adolygu'r cynllun a'i ddiweddarau gyda gweledigaeth gydlynus ar gyfer prosiectau a datblygiadau yn Rhuthun yn y dyfodol. Roedd wedi trafod hyn gydag Adran Rheoli Asedau a Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ddinbych, gyda'r ddau yn barod i gyfrannu £500 tuag at gostau'r cam nesaf, ac roedd yn obeithiol y byddai'r Adran Gynllunio yn cyfrannu tuag at y ddiweddariad cynllun hefyd. Esboniodd bod Grŵp Twristiaeth Bro Rhuthun yn ailddechrau a byddai'n fodlon rhoi arian o'u cronfa, ynghyd â'r Manorhaus. Roedd awdur y cynllun gwreiddiol, Dr. Matthew Jones, wedi darparu Adroddiad Sgôp a Chynnig y Prosiect ar gyfer diweddarau'r cynllun, am gyfanswm o £2,350 a gofynnodd y Cynghorydd Harris i'r aelodau ystyried cyfraniad o £1,000 gan y Cyngor Tref. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Anne Roberts a'i eilio gan y Cynghorydd Robert Owen-Ellis a chytunwyd yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD:** *bod Cyngor Tref Rhuthun yn cyfrannu £1,000 tuag at gost diweddarau'r Cynllun Rhuthun – Tref Farchnad y Dyfodol.*

#### **71. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 19 Mawrth 2018, am 6:45p.m.*